# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2012

**PRESENNOL:**

**Aelodau Anibynnol**

Mr Michael Wilson (Cadeirydd) (Aelod Anibynnol)
Mr Islwyn Jones (Is-Gadeirydd) (Aelod Anibynnol)

Ms Denise Harris Edwards;
Mr Leslie Lord;
Mrs Dilys Shaw;

**Yn cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned**

Y Cynghorydd Raymond Evans (Cynghorydd Tref/Cymuned)
Y Cynghorydd John Roberts (Cynghorydd Tref/Cymuned)

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir**

Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes
Y Cynghorydd Ieuan Williams

**WRTH LAW**:

Swyddog Monitro (Lynn Ball)
Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro (RMJ)
Pennaeth Gwasanaeth (Tai) (SLW)
Uwch Swyddog Datblygu AD
Rheolydd y Wefan Gorfforaethol (PA)
Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni wnaed yr un datganiad o ddiddordeb gan nac Aelod na Swyddog

**2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD yn unol ag Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlaen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

**3. DEFNYDDIO DISGRESIWN STATUDOL MEWN PERTHYNAS AG INDEMNIAD AM GOSTAU CYFREITHIOL**

Dywedodd y Swyddog Monitro - bod y Cyngor yn gweithredu Polisi Indemniadau a oedd yn golygu bod ei Is-Bwyllgor Indemniadau yn gallu rhoi indemniad i Aelodau i gwrdd â chostau cyfreithiol a gafwyd wrth amddiffyn cwynion a wnaed yn eu herbyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn codi o achos/achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad. Rhoddwyd indemniad o'r fath i Gynghorydd 'A' yn 2011.

Mewn cydymffurfiaeth gyda'r fframwaith statudol sylfaenol, roedd polisi'r Cyngor yn caniatáu i Aelod gadw mantais indemniad o'r fath mewn achosion lle na ddyfarnwyd yn erbyn yr Aelod yn y pen draw. Yn yr achosion hynny lle' roedd Aelod yn cael ei atal/hatal neu ei anghymwyso/hanghymwyso, nid oedd modd iddynt elwa o'r indemniad ac roedd raid iddynt ad-dalu unrhyw symiau yr oeddent eisoes wedi eu derbyn dan delerau'r indemniad.

Fodd bynnag, roedd yna drydydd categori o achosion sydd rhwng difeio ac atal. Mewn achosion o'r fath, roedd gan y Pwyllgor Safonau ddisgresiwn i benderfynu a fyddai'r Aelod yn cael elwa ai peidio o'r indemniad.

Yn yr achos presennol, cafodd y Cynghorydd 'A' gerydd a hynny'n sbarduno'r angen i'r Pwyllgor Safonau ddefnyddio ei ddisgresiwn o ran indemniad. Dylai rhan o broses drafod y Pwyllgor Safonau olygu bod yr Aelod a effeithir yn cael cyfle i annerch y Pwyllgor ac ateb unrhyw gwestiynau. I hwyluso hynny, roedd y Pwyllgor eisoes wedi rhoi caniatâd arbennig generig i unrhyw Aelodau sy'n cael eu hunain yn y sefyllfa hon. Roedd y Cynghorydd 'A' wedi dweud ei fod yn bwriadu ymddangos gerbron y Pwyllgor i gyflwyno ei achos ar gyfer cadw budd yr indemniad yn llawn. Wrth ymarfer ei ddisgresiwn, rhaid i'r Pwyllgor roi rhesymau am ei benderfyniad.

Wrth ystyried cais y Cynghorydd 'A', gofynnwyd i'r Pwyllgor gymryd i ystyriaeth y cyngor cyfreithiol a ddarparwyd ar Dudalen 5 yr adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i Gynghorydd 'A' annerch y Pwyllgor Safonau a chyflwyno ei achos am indemniad ar gyfer costau cyfreithiol.

Ar ôl clywed y dystiolaeth, a'r cyngor cyfreithiol a ddarparwyd, ymneilltuodd y Pwyllgor Safonau i sesiwn breifat i drafod y cais. Nid oedd y Swyddogion yn bresennol.

**Penderfynwyd:-**

1. Er nad yw'n cymeradwyo'r ymddygiad a ddisgrifir yn y casgliadau a wnaed gan Dribiwnlys Achos Panel Dyfarnu Cymru (PDC) ar 26 Awst 2011, mae'r Pwyllgor Safonau, drwy weithredu ar ei ddisgresiwn dan Bolisi Indemniadau'r Cyngor (copi ynghlwm), yn cadarnhau ac yn cymeradwyo'r indemniad gwreiddiol a ganiatawyd i'r Cynghorydd Peter S. Rogers gan yr Is-Bwyllgor Indemniadau ar 29 Mehefin 2011.

2. Bydd yr indemniad, fel y cafodd ei gadarnhau, hyd at uchafswm o £10,000 ynghyd â TAW, a:

    i. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol o gwbl am unrhyw symiau ychwanegol y tu hwnt i'r rheini a awdurdodwyd gan yr Is-Bwyllgor Indemniadau ar 29 Mehefin 2011, oherwydd ni chyflwynwyd unrhyw gais pellach ac ni ryddhawyd unrhyw ganiatâd arall.

    ii. Ni fydd taliad indemniad yn cael ei wneud hyd oni fydd y swm a awdurdodwyd wedi cael ei wario a dim ond os bydd tystiolaeth ar gael ar bapur sy'n cwrdd â gofynion rhesymol y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) neu ei olynydd/ei holynydd.

3. I gefnogi ei benderfyniad, cymerodd y Pwyllgor Safonau'r canlynol i ystyriaeth:

    i. Roedd yr honiadau yn yr achos hwn â'r potensial i fod yn rhai difrifol a phetai PDC wedi cadarnhau canfyddiadau cychwynnol OGCC, yna byddai cyfnod hir o atal neu hyd yn oed waharddiad wedi dilyn, o bosib. Adlewyrchir hyn gan y ffaith nad oedd OGCC wedi cyfeirio'r gwrandawiad i'r Pwyllgor Safonau gyda'i rym i fynnu ar y gosb uchaf, sef atal yr aelod am 6 mis. Yn lle hynny, cyfeiriodd OGCC y mater i PDC sydd â grym i atal am hyd at 12 mis neu i wahardd aelod o swydd gyhoeddus am hyd at 5 mlynedd.

    ii. Roedd yr honiadau a wnaed gan HGC a chanfyddiadau OGCC yn cynnwys bwlio a hambygio; ceisio sicrhau neu roddi budd/anfantais a cheisio dylanwadu ar ddidueddrwydd swyddogion. Fodd bynnag, o gael eu profi mewn gwrandawiad 3 diwrnod i hel tystiolaeth, ni chadarnhawyd yr un o'r honiadau hyn ac yn lle hynny,

canfu PDC y bu un methiant i ddangos parch ac ystyriaeth gan arwain at ddau achos o dorri Cod Ymddygiad y Cyngor Sir. Penderfynwyd nad oedd Côd Ymddygiad Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru yn berthnasol.

iii. Petai rhai neu'r cyfan o'r honiadau a amlinellir uchod wedi cael eu cadarnhau, yna mae'n debyg y byddai niwed i enw da hefyd wedi digwydd.

iv. Roedd gwrandawiad y Tribiwnlys Achos yn ymwneud â nifer o faterion cymhleth yn arbennig holi 8 o dystion gan gynnwys 4 o swyddogion yr Heddlu. Petai'r ymgeisydd wedi bod heb gynrychiolaeth ddigonol, mae'n debygol y byddai wedi cael ei hun dan anfantais gan arwain at anghyfartaledd o ran cynrychiolaeth. Cafodd OGCC hefyd ei gynrychioli gan gwnsler.

v. Mae'n amlwg bod gwahaniaethau clir rhwng yr honiadau fel y cawsant eu gwneud, canfyddiadau cychwynnol OGCC a phenderfyniad terfynol PDC. Byddai cynrychiolaeth arbenigol y Cwnsler wedi bod yn ffactor o bwys o ran y canlyniad terfynol.

vi. Un ffactor yn nhrafodaethau'r Pwyllgor Safonau oedd er eu bod yn derbyn y gall yr ymgeisydd fod wedi bod yn rhy egnïol o ran mynd ar ôl yr hyn a oedd, yn ei dyb ef, yn gyfiawnder achos ei etholwr, roedd serch hynny wedi ymddwyn gyda phob ewyllys da ac roedd yr ymddygiad a dorrodd y Cod wedi digwydd yng ngwres y sefyllfa a heb unrhyw falais.

vii. Roedd yr ymgeisydd eisoes wedi cael ffioedd cyfreithiol sylweddol cyn cyflwyno ei gais am indemniad. Bydd raid i'r ymgeisydd dalu'r ffioedd hynny'n bersonol oherwydd ni fedrir dyfarnu costau yn ôl-weithredol yn unol â thelerau Polisi'r Cyngor.

viii. Yn ychwanegol at yr effaith ar yr ymgeisydd, o ran cosb a niwed i enw da, roedd y Pwyllgor Safonau hefyd yn rhoi rhywfaint o bwys ar fater difreiniad sy'n gysylltiedig â gwahardd a hynny o ran ward yr ymgeisydd a hefyd o ran cynrychiolaeth Cyngor Sir Ynys Môn ar AHGC yn enwedig ar adeg o newidiadau ac ad-drefnu sylfaenol mewn plismona.

4. Roedd y Pwyllgor Safonau yn dymuno nodi'r pryderon canlynol:

i. Mae'n rhaid bod y costau tebygol a'r amser a dreuliwyd yn delio gyda'r gwyn hon gan OGCC, PDC, yr Achwynydd, yr Ymatebydd a'r Cyngor Sir yn sylweddol anghymesur o gymharu â'r canlyniad. Er gwaethaf difrifoldeb yr honiadau, mae hwn, oherwydd natur oddrychol y dystiolaeth a'r un mater sy'n sylfaenol i'r gwyn, yn fater y byddai'n well efallai bod wedi ymyrryd yn fuan ynddo drwy gyfrwng penderfyniad / cymodi lleol, gan felly arbed amser ac adnoddau.

ii. Byddai aelodau AHGC a'r awdurdodau lleol y maent yn eu cynrychioli yn elwa o fwy o eglurder yn y dyfodol mewn perthynas â safiad / polisi AHGC ar ddarparu indemniadau.

**Atgynhyrchir hwn gyda chytundeb y Cynghorydd P S Rogers.**

*[Nodyn: Nid oedd cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned yn bresennol ar gyfer yr eitem benodol hon].*

**4. COFNODION**

(a) Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2011 fel rhai cywir.

(b) Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2012 fel rhai cywir.

(c) Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2012 fel rhai cywir.
*[Roedd cynrychiolwyr y Cynghorau Tref a Chymuned yn dymuno cofnodi nad oedd gofyn iddynt fod yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf hwn].*

**5. DIWEDDARIADAU AR FATERION A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR YN EI GYFARFOD AR 14 RHAGFYR 2011**

**5.A Y BROSES GOSOD TAI**

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Tai) - bod aelodau'r Pwyllgor hwn wedi cael adroddiad ar 14 Rhagfyr 2011 yn egluro rôl Aelodau etholedig yn y broses Gosod Tai.

Adroddwyd y byddai'r wybodaeth, ynghyd a chrynodeb o'u rôl yn y broses, yn cael ei hanfon at bob Aelod etholedig ar ffurf llythyr a arwyddwyd ar y cyd gan y Comisiynydd, yr Aelod Portffolio Cysgodol ar gyfer Tai a'r Pennaeth Gwasanaeth (Tai) yn y dyfodol agos.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad gwaith, gofyn am ddiweddariad pellach i'r Pwyllgor hwn mewn 12 mis ac, yn y cyfamser, bod Aelodau'r Pwyllgor yn derbyn copïau, trwy'r Swyddog Monitro, o'r wybodaeth a anfonir at Aelodau'r Cyngor.**

5.B Y SEFYLLFA GYFREDOL YNGLŶN Â CHYHOEDDI COFRESTRAU STATUDOL AR-LEIN

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Rheolydd Gwe a Gwybodaeth Gorfforaethol ynghylch cyhoeddi Diddordebau Aelodau ar-lein i gynnwys datganiadau ynghylch rhoddion a lletygarwch ynghyd â diddordebau mewn cyfarfodydd ac fel bod modd diweddaru'r ffurflenni rhoddion a lletygarwch a'r Cofrestrau Sefydlog yn rhyngweithiol.

Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn ym mis Rhagfyr, adroddwyd y byddai'r Gofrestr o Roddion a Lletygarwch a'r Gofrestr o Ddiddordebau a ddatganwyd mewn cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi ar-lein trwy'r system e-ddemocrataidd Modern.Gov ar ddiwedd mis Mawrth. Fodd bynnag, roedd nifer o anawsterau wedi codi o ran adnoddau, yn arbennig yn yr adain TGCh a oedd wedi golygu oedi gyda gweithredu'r cynllun.

Yn realistig, ni fyddai'r system bellach yn weithredol tan fis Mehefin a byddai'r ddwy gofrestr yn cael eu cyhoeddi ar-lein bryd hynny. Byddai'r gwasanaeth AD yn gweithio gyda'r gwasanaeth TGCh i ddarparu hyfforddiant ar gyfer Aelodau ar y system Modern.Gov newydd fel bod modd iddynt ddiweddaru eu gwybodaeth ar y fersiynau ar-lein o'r cofrestrau. Yn y cyfamser, byddai'r ddwy gofrestr yn cael eu cynnal gan dîm y we. Rhagwelwyd y byddai hyfforddiant yn digwydd yn yr Hydref yn amodol ar nodi anghenion hyfforddiant TGCh eraill ar gyfer yr Aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad gwaith a gofyn am ddiweddariad pellach yn y Pwyllgor Safonau a gynhelir ym mis Mehefin 2012.**

5.C PROSIECT RHEOLI CWYNION

Dywedodd y Swyddog Monitro - bod y Mandad Prosiect ar gyfer y Polisi Enghreifftiol ar gyfer Pryderon a Chwynion wedi ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Penaethiaid Gwasanaeth ar 25 Tachwedd 2011 gyda'r bwriad o hwyluso cyflwyno'r polisi newydd. Derbyniodd y Tîm Rheoli'r Mandad Prosiect.

Fodd bynnag, ar 6 Mawrth 2012 penderfynodd y Cyngor Sir beidio â dyrannu unrhyw gyllid ar gyfer y prosiect a bellach mae angen pwyso a mesur sut i weithredu'r polisi newydd o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid torri'n ôl ar nodau a sgôp cychwynnol y prosiect ac y byddai Dogfen Cychwyn Prosiect diwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r Tîm Rheoli Penaethiaid Gwasanaeth gyda hyn.

**PENDERFYNWYD**

**● Nodi cynnwys yr adroddiad a mynegi siom y Pwyllgor hwn ynghylch penderfyniad y Cyngor i beidio â dyrannu unrhyw gyllid ar gyfer y prosiect.**

**● Gofyn i'r Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y Ddogfen Cyflwyno Prosiect ar ei newydd wedd ym mis Mehefin 2012.**

**6. CWYNION AM YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad gan y Swyddog Monitro ar ffurf matrics wedi ei ddiweddaru ar gyfer cwynion i'r Ombwdsmon ynghylch ymddygiad Cynghorwyr Cyngor Sir Ynys Môn.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a bod manylion yn cael eu darparu i'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol o ran cwynion a wnaed i'r Ombwdsmon mewn perthynas â Chynghorwyr Tref a Chymuned hefyd. Ceir yr adroddiad nesaf ym mis Mehefin 2012.**

**7. CRYNODEB O BENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU**

Dywedodd y Swyddog Gofal Cwsmer - bod yr adroddiad hwn yn ymwneud â phenderfyniadau a wnaed gan y Panel Dyfarnu rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Ionawr 2012 a'i fod wedi ei fwriadu fel crynodeb ffeithiol o faterion a ddaeth gerbron y Panel Dyfarnu. Ni fyddai'n disodli'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor pan oedd cwyn mewn perthynas â Chyngor Sir Ynys Môn wedi bod gerbron y Panel Dyfarnu.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ar y materion a gafodd sylw gan Banel Dyfarnu Cymru. Ceir yr adroddiad nesaf ym mis Mehefin 2012.**

**8.** A. STATWS Y CYNLLUN DATBLYGU AELODAU

Cafwyd adroddiad diweddaru gan yr Uwch Swyddog Datblygu ar faterion sy'n codi o'r Cynllun Datblygu Aelodau a'r Grŵp Datblygu Aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth. Ceir yr adroddiad nesaf ym mis Mehefin 2012.**

B. CYFLWYNO ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL AR GYFER AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan yr Uwch Swyddog Datblygu ynghylch Adolygiadau Datblygiad Personol ar gyfer Aelodau.

Adroddwyd - bod dau adroddiad wedi eu rhoi i'r Pwyllgor hwn yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr ar y cynnydd a wnaed gyda'r Cynllun Datblygu Aelodau a Chynllun Peilot ar gyfer Adolygu Datblygiad Personol.

Oherwydd bod y ddau yn cael effaith ar ei gilydd, roedd yr Adroddiad Gwaith yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y ddwy elfen.

**(a) Cynllun Datblygu Aelodau**

Ers yr adroddiad diwethaf a oedd yn rhoi trosolwg o'r sesiynau a gafwyd dros fisoedd olaf 2011, cafwyd nifer o weithdai ac roedd manylion am y rheini i'w gweld yn yr adroddiad. I adeiladu ar y diwylliant datblygu sydd bellach wedi hen sefydlu, roedd CDA drafft ar gyfer 2012-13 ynghlwm wrth yr adroddiad. Roedd y Cynllun yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd gan

Gomisiynwyr / Adrannau a hefyd manylion a gafwyd yn sgil cwblhau Adolygiadau Datblygiad Personol gan rai Aelodau etholedig. Byddai'n rhaid i'r Cynllun gael ei gadarnhau gan y Gweithgor Datblygu Aelodau cyn y gellid ei anfon ymlaen i sylw'r Cyngor llawn i'w dderbyn.

**(b) Adolygiadau Datblygiad Personol**

Cafwodd sylwadau ar y cynllun peilot ar gyfer Adolygiadau Datblygiad Personol eu cynnwys yn yr adroddiad. Derbyniwyd pob un adolygiad heblaw am un. Roedd yr anghenion datblygu a amlygwyd yn yr adolygiad hwn yn amrywio o sgiliau TG, sgiliau personol/ymddygiadol i sgiliau mwy technegol. Roedd y data wedi ei gasglu a'i ymgorffori yn yr ADP lle'r oedd modd gwneud hynny. Yn awr, roedd angen cadarnhau'r ADP a disgwylir am sylwadau ar y broses ADP cyn symud ymlaen.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a gofyn i'r Uwch Swyddog Datblygu ddarparu diweddariadau chwarterol cyfrinachol i'r Pwyllgor hwn ynghylch presenoldeb Aelodau mewn sesiynau hyfforddi a ddarparwyd gan y Cyngor. Ceir yr adroddiad nesaf ar ADP ym mis Mehefin 2012.**

**9. CANLYNIAD ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GOFRESTRAU CYHOEDDUS O DDIDDORDEBAU AELODAU AC AELODAU CYFETHOLEDIG A RHODDION A LLETYGARWCH**

Cyflwynwyd er gwybodaeth, lythyr dyddiedig 9 Chwefror 2012 gan Gyn-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau i bob Aelod o'r Cyngor Sir mewn perthynas â chanlyniad yr adolygiad blynyddol yn y cyswllt hwn.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y llythyr.**

**10. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfod o Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2012 ynghyd â manylion y cyfarfod nesaf a gynhelir ar 23 Ebrill 2012.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y cofnodion a dyddiad y cyfarfod nesaf.**

**11. Y CADEIRYDD YN ADRODD I'R CYNGOR AR WAITH Y PWYLLGOR YN Y CYFARFOD O'R CYNGOR YM MIS MAI**

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried cynnwys y Rhaglen Waith a chofnodion y Pwyllgor Safonau a oedd ar gael ar wefan y Cyngor ac i gyflwyno unrhyw sylwadau'n ysgrifenedig i'r Cadeirydd, Michael Wilson erbyn dydd Mawrth 10 Ebrill 2012.

**PENDERFYNWYD nodi'r cais.**

**12. THEMÂU LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL – ADRODDIAD CHWARTER 3 A CHWARTER 4**

Dywedodd y Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro - bod y Comisiynwyr wedi cyhoeddi Blaenoriaethau Strategol, sef eu blaenoriaethau ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol. Tair agwedd bwysig ar y rhain oedd:-

●safonau ymddygiad

●effeithiolrwydd y Pwyllgor Safonau

●y berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol

Ynghlwm wrth yr adroddiad roedd copïau o dri adroddiad gwaith gan y Comisiynwyr i Weinidogion Cymru ar gyfer tri chwarter y flwyddyn ariannol ynghyd ag adroddiad Chwarter 4

wedi ei ddiweddaru ac a ddosbarthwyd yn y cyfarfod.  Dygwyd sylw'r Pwyllgor at y camau allweddol yn y golofn ar yr ochr chwith ym mhob un o'r adroddiadau ac yn arbennig at y risgiau a’r sylwadau ar reoli risg yn y golofn ar yr ochr dde.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a gofyn, ar ran y Pwyllgor hwn, i’r Swyddog Monitro ysgrifennu at y 3 Aelod o'r Cyngor nad oeddent wedi ymateb i'r cais i arwyddo disgrifiadau swyddi a manylebau person a gofyn iddynt sicrhau eu bod yn cydymffurfio cyn pen 6 wythnos i ddyddiad derbyn llythyr o'r fath.**

**13. ADOLYGIAD O BROTOCOL CYNGOR AR GYFER Y BERTHYNAS RHWNG AELODAU A SWYDDOGION**

Darparwyd copïau o'r Protocol cyfredol a'r Protocol newydd arfaethedig er sylw’r Pwyllgor ac er trafodaeth.  Gofynnwyd i’r Aelodau gyflwyno unrhyw sylwadau ysgrifenedig gyda hyn, a chytuno ar natur yr ymgynghoriad gydag Aelodau'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD gofyn i aelodau’r Pwyllgor hwn anfon unrhyw sylwadau ysgrifenedig a fo ganddynt i'r Swyddog Monitro cyn pen 6 wythnos.  Byddai’r Swyddog hwnnw wedyn yn paratoi adroddiad i'r Pwyllgor hwn ym mis Mehefin yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd a chyda drafft terfynol ar gyfer ymgynghori gydag Aelodau.**

**14. RHAGLEN WAITH DDRAFFT – 2012/2013**

Cyflwynwyd er gwybodaeth - copi o’r Rhaglen Waith gyfredol ar gyfer 2012-13.

**PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y Rhaglen Waith newydd ar gyfer 2012-13.**

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30pm

**Mr Michael Wilson**
**Cadeirydd**